OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 2253 (Cy.163)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Deunyddiau Porthi (Samplu a Dadansoddi) (Diwygio) (Cymru) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *14 Mehefin 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Awst 2001* |

Drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 66(1), 77(4), 78(6) ac 84 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 (**1**) (fel y'i darllenir gyda rheoliad 14 o Reoliadau Deddf Safonau Bwyd 1999 (Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol ac Eithriadau) (Cymru a Lloegr) 2000 (**2**)) sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru (**3**), ar ôl ymgynghori yn unol â gofynion adran 84(1) o'r Ddeddf honno â'r personau neu'r cyrff y mae'n ymddangos eu bod yn cynrychioli'r buddiannau sydd o dan sylw, a chan ei fod wedi'i ddynodi (**4**)) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (**5**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran 2(2) a enwyd (i'r graddau na ellir gwneud y Rheoliadau hyn o dan y pwerau yn Neddf Amaethyddiaeth 1970 a bennir uchod), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

(**1**) 1970 p.40. Diwygiwyd y diffiniad o "the Ministers" gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (OS 1978/272), Atodlen 5, paragraff 1.
(**2**) OS 2000/656.
(**3**) Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672), mae swyddogaethau "the Ministers" yn arferadwy bellach yng Nghymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
(**4**) OS 1999/2788.
(**5**) 1972 p.68.